

**PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD**

15 RHAGFYR 2022

PRESENNOL Cyngorydd J.D. James (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K. Davies, P. Cooper, N. Lewis, B.D.J. Phillips.

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen, T.A.J. Davies, T.M. Higgins, S. Godfrey-Coles.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

Cyngorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith;

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

Cyngorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
D.W. John, Rheolwr Gwasanathau Amgylcheddol;
T. Evans, Cynllunio Trafnidiaeth - Strategaeth a Seilwaith;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau (Asiantaeth);
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd ;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwyr):

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:55yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 2 2022/23

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a roddai wybod i'r Aelodau am y cynnydd o ran y Camau Gweithredu a'r Mesurau oedd yn berthnasol i'r maes craffu hwn ar ddiwedd Chwarter 2 - 2022/23. Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith y camau gweithredu o fewn eu portffolios.

Gwnaed y sylwadau/ymholiadau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at gam gweithredu rhif 15654 - 'Sicrhau bod system CAMS yn cael ei datblygu ar gyfer riportio symudol a hyfforddi 30 o wirfoddolwyr i Wella mynediad cyhoeddus i Gefn Gwlad'. Gofynnwyd a oedd hyn wedi bod yn llwyddiannus ac a gafwyd llawer o wirfoddolwyr? Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd fod ychydig o oedi wedi bod oherwydd gwelliannau angenrheidiol i'r system TG, a chadarnhaodd fod 30 o unigolion wedi gwirfoddoli.

Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol ynghylch lleoliad gwirfoddolwyr yn y sir ac a oedd unrhyw beth y gallai Cyngorwyr ei wneud i gynorthwyo, cadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd fod gwirfoddolwyr rhestredig ym mhob rhan o'r sir a dywedodd byddai Cyngorwyr yn cael cyfle i gynorthwyo yn ystod y rhaglen ehangach i recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol. Byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i Gynghorwyr maes o law.

- Dywedwyd bod yr adroddiad perfformiad yn cynnwys llawer o acronymau a byrfoddau a oedd yn ei wneud yn anodd i'w ddarllen a'i ddeall. Bu i'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith gydnabod y sylw.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 2022/23.

5. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH WASTRAFF

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddar am Strategaeth Wastraff 2021-2025 a'r gwasanaethau fydd yn cael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2023. Roedd y strategaeth, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith, yn darparu amcan strategol clir o wella casgliadau gwastraff domestig wrth ymyl y ffordd, ac, o ganlyniad, cynyddu cyfraddau ailgylchu yn Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn crynhoi'r polisiau rheoli gwastraff presennol oedd yn ofynnol er mwyn gwella perfformiad gweithredol a strategol.

Dywedwyd bod y strategaeth yn ffordd raddol o newid y gwasanaeth, gydag ateb dros dro i'w gyflwyno yn 2022, a newid mwy hirdymor i gyflawni'r dull casglu Glasbrint erbyn 2024.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am:

- Y sefyllfa dros dro
- Asesiad Effaith Integredig
- Cyllid
- Economi Gylchol
- Y camau nesaf
- Polisi Gwastraff

Cafodd y Polisi Gwastraff ac Ailgylchu ei atodi i'r adroddiad.

Gwnaed y sylwadau/ymholiadau canlynol:-

- O ran yr eiddo na fyddent yn derbyn y gwasanaeth casglu gwydr, gofynnwyd a allai Cyngorwyr dderbyn rhestr o'r eiddo hynny? Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai rhestr fesul ward ar gael ar ôl cwblhau darn o waith a fyddai'n cynnwys y rhesymau pam na fyddai'r eiddo yn derbyn y casgliad gwydr. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith y gallai'r rhesymau gynnwys lonydd hir, cul neu ffyrdd oedd heb eu mabwysiadu.
- Dywedwyd y gellid ystyried padiau anymataliaeth fel y cynhyrchion hynny a gâi eu dosbarthu drwy nyrsys GIG/ardal, felly gofynnwyd a oedd padiau anymataliaeth fel y brand 'Tena Lady/Men' a hysbysebwyd wedi eu cynnwys yn y dosbarthiad o Gynhyrchion Hylendid Amsugol (AHP) ar gyfer bagiau porffor, ac os nad oeddent, a fyddai modd gwneud hyn yn gliriach? Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol byddai unrhyw badiu anymataliaeth gan gynnwys brand Tena yn cael eu hystyried yn AHP's, ac felly gellid eu rhoi yn y bagiau porffor, ac o gofio'r sylw, byddai'n ystyried cynnwys hyn yn y negeseuon cyfathrebu.
- Mewn ymateb i bryder ynghylch casgliadau a gollwyd, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol, yn ogystal â thrigolion yn rhoi gwybod am hynny drwy wefan y Cyngor neu dros y ffôn, fod trigolion hefyd yn cael eu hannog i gofrestru i'r gwasanaeth negeseuon testun ac e-bost i'w hatgoffa o'u gwasanaeth casglu ar ymyl y ffordd, ac i roi unrhyw wybodaeth arall iddynt, fel unrhyw darfu ar wasanaethau oherwydd bod cerbyd wedi torri lawr neu'r tywydd yn arw.
- Wrth sôn fod trigolion wedi mynegi pryderon ynglŷn â chasglu bagiau du bob 3 wythnos, gofynnwyd a fyddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei adolygu? Yn ôl Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol, fel yn achos yr holl wasanaethau a ddarparwyd, byddai'r newid hwn i'r gwasanaeth yn destun craffu ac adolygu parhaus. Fodd bynnag, gallai unrhyw aelwydydd oedd yn cael trafferthion â'r terfyn o 3 bag du ofyn am gyngor a chefnogaeth drwy'r tîm cyfathrebu a'r canolfannau Hwb. Yn ogystal â hynny, cafodd Aelodau wybod bod modd ailgylchu bron i 50% o'r hyn oedd yn cael ei roi mewn bagiau du ar draws Sir Gaerfyrddin, a dylai tynnu'r eitemau darvoudus o fagiau du gael gwared ar risg iechyd.

- Mewn ymateb i bryder gafodd ei godi ynghylch y cynnydd posib mewn tipio anghyfreithlon, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried effaith y newid yn y gwasanaeth fel rhan o'r adolygiad cyfredol o reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, y gobaith oedd lleihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon drwy orfodaeth gadarn ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mewn ymateb i sylw ynghylch canolfannau Hwb a staff yn meddu ar y wybodaeth gywir i'w rhoi i'r cyhoedd, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol, fel rhan o'r newid i'r gwasanaeth, fod staff Hwb yn mynychu cwrs gan Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru ac yn cael eu briffio'n rheolaidd ynghylch y newidiadau a ble i gael gwybodaeth. Hefyd, ar hyn o bryd, roedd Swyddogion Ymgysylltu Gwastraff ar gael yn y canolfannau Hwb un diwrnod yr wythnos tan ddiwedd mis Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnydd a chyflawniad Strategaeth Wastraff 2021.

6. STRATEGAETH SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU TRYDAN CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yr oedd Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan y Cyngor wedi'i hatodi iddo. Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau bod y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2021 wedi cymeradwyo'r Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan sy'n nodi gweledigaeth sef: "Datblygu a hyrwyddo rhwydwaith o bwyntiau gwefru trydan, sy'n darparu ar gyfer ac yn annog twf yn y defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol, ac wrth wneud hynny, yn diogelu ein rhwydwaith trafndiaeth yn y dyfodol ac yn cyfrannu at dargedau lleihau llygredd lleol a byd-eang."

Gwnaed y sylwadau/ymholiadau canlynol:-

- Wrth gydnabod faint o waith da oedd wedi cael ei roi i mewn i'r adroddiad, dywedwyd bod y ffigurau diweddaraf yn yr adroddiad yn cynnwys data, a oedd mor bell yn ôl â 2018, gyda datganiad gweledigaeth a nodai'r cyn-Aelod Cabinet, ond eto roedd y strategaeth yn nodi 2022. Dywedwyd efallai nad oedd hyn yn cyfleu i'r cyhoedd fod y Cyngor yn symud ymlaen. Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd mai'r strategaeth oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad oedd y strategaeth gymeradwy a roddwyd ar waith ym mis Rhagfyr 2021, gyda'r bwriad i'w hadolygu bob 3 blynedd i ystyried newidiadau. Yn ogystal, eglurodd y Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth - Strategaeth a Seilwaith fod y Strategaeth wedi ei datblygu gan ddefnyddio cyllid 2020/21.
- Cyfeiriwyd at EV 4 - Annog y Defnydd o Gerbydau Trydan yn eu Fflyd ac EV11 - Annog Clybiau Ceir Trydan. Dywedwyd mai cyfyng oedd y bwriadau i gryfhau'r defnydd o gerbydau trydan o fewn y fflyd a'r teimlad oedd y dylai'r Cyngor fod yn ystyried defnyddio cynlluniau fel clybiau ceir cymunedol i leihau faint o geir oedd ar y ffyrdd.

Esboniodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd fod y fflyd yn fater cymhleth gan fod unrhyw newidiadau yn ddibynnol ar ble roedd pob cerbyd yn y cylch cyfnewid cerbydau. Dechreuodd drwy dreialu cerbydau o fewn y fflyd sbwriel a wnaeth ddatgelu rhai heriau o ran y pellter teithio yn achos y llwybrau a ddefnyddir. Yn ogystal, roedd heriau ehangach yn yr ystyr yr aed â nifer o gerbydau gartref ac roedd angen trefniadau gwefru ac ad-dalu, ac roedd heriau ymarferol o ran gwefru e.e. ceblau ar draws palmentydd. Fodd bynnag, er yr heriau cafodd aelodau wybod bod y Cynllun Busnes yn cynnwys cam i gyflwyno'r strategaeth fflyd yn chwarter 1 2023/24.

O ran cynlluniau clybiau ceir [EV11], eglurodd y Pennaeth Cludiant a Phrifyrdd fod clwb ceir, a oedd yn defnyddio cerbyd trydan, ar waith ym Mrechfa ar hyn o bryd ac roedd rhannau eraill o'r sector gwirfoddol yn y broses o ddatblygu cynlluniau.

- Awgrymwyd bod y Cyngor yn ystyried dewis gwell tariff defnydd amser a fyddai'n cyfateb i tua 10% o'r costau rhedeg. Gallai'r opsiwn o dariff gwefru dros nos drawsnewid y sefyllfa gyllidol yn y dyfodol o bosib.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor Sir Caerfyrddin.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 23 Ionawr 2023 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Yn ogystal â'r adroddiadau a oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Craffu ar 23 Ionawr 2023, nododd yr Aelodau'r adroddiadau a fyddai hefyd yn cael eu dosbarthu iddynt y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor ar gyfer craffu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23 Ionawr 2023.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 24 TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022, gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD